



Calon gymdeithasol. Meddwl busnes.

Aelod Bwrdd Cyfetholedig (Digideiddio) £5,000 y flwyddyn

Ychydig i'r gogledd o Gasnewydd yn Ne Cymru, mae Bron Afon yn darparu gwasanaethau tai a chymorth ar gyfer 8,000 o eiddo a 900 o lesddeiliaid. Ein nod yw chwarae rhan allweddol yn creu cymunedau llewyrchus yn ein rhan ni o Gymru. Mae darparu tai fforddiadwy o ansawdd da yn rhan hanfodol o gyflawni hyn, ynghyd â darparu anogaeth a chefnogaeth ymarferol i bobl sydd ei angen.

Mae'n bwysig i ni fod gennym fodel llywodraethu effeithiol ar waith, sy'n ein galluogi i fanteisio ar arbenigedd a phrofiadau gwahanol bobl wrth osod ein strategaeth sefydliadol ac yna mesur cynnydd yn erbyn y targedau rydyn ni'n eu gosod i ni'n hunain. Yn dilyn adolygiad llywodraethu diweddar, mae gennym bellach nifer o rolau anweithredol ar gael i bobl sy'n awyddus i ychwanegu gwerth at yr hyn a wnawn ac sy'n angerddol am ymrwymo eu sgiliau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl a chymunedau.

Ar gyfer un o'r rolau hyn rydym yn chwilio am rywun ag arbenigedd penodol yn y gweithle digidol. Mae gallu manteisio mwy ar ein gallu digidol er mwyn gallu ymgysylltu â'n cwsmeriaid mewn gwahanol ffyrdd a gwneud gwell defnydd o ddata wrth lunio ein gwasanaethau yn flaenoriaeth i ni. Hoffem glywed gan bobl a all gynnig arbenigedd mewn meysydd fel seilwaith TGCh ac atebion cwmwl, gan sicrhau cydnerthedd o amgylch

Seiberddiogelwch bob amser. Bydd gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol a datblygu gwe hefyd yn werthfawr wrth i'r rhain ddod yn gyfryngau mwyaf cyffredin wrth gyfathrebu â chwsmeriaid. Bydd yn debygol y bydd gennych brofiad mewn rheoli prosiectau digidol i gefnogi newid trawsnewidiol, felly bydd cysyniadau fel gweithio hyblyg a newidiadau i brosesau busnes a arweinir gan ddata yn faes cyfarwydd i chi.

Dyma gyfle gwych i gymhwyso'ch sgiliau technegol ar lefel strategol mewn sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl. Rydym yn cydnabod buddion gwybodaeth ac arbenigedd traws-sector felly nid yw'n hanfodol bod gennych unrhyw brofiad uniongyrchol yn y sector tai cymdeithasol. Rydym hefyd yn agored i drafod eich lleoliad gweithio.

Ewch i www.social-heart-business-mind.co.uk i ddarganfod mwy.

Am drafodaeth gyfrinachol neu ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Anne Elliott yn ema ar 07875 762029.

Dim asiantaethau os gwelwch yn dda.

Dyddiad cau: 6 Medi 2021.

